

Ffwdan ffurfwedd

Education in Chemistry

Medi 2026

<https://rsc.li/4tAjMCS>

Mae model Bohr, neu fodel cysawd yr haul, yn cael ei ddefnyddio i luniadu diagramau ffurfwedd electronau sy'n dangos safle electronau wrth iddynt orbitio niwclews atom.

Mae'r model hwn yn gynrychioliad addas o'r 20 elfen gyntaf, ond os byddwch chi'n astudio cemeg ôl-16, bydd yn cael ei ehangu drwy ychwanegu is-blisg a chymylau electronau neu orbitalau.

Er mwyn lluniadu model Bohr manwl gywir o atom, dilynwch y camau hawdd hyn ar gyfer unrhyw un o'r 20 elfen gyntaf:




- Dewch o hyd i'r elfen yn y tabl cyfnodol. Mae'r **rhif atomig** yn dweud wrthyb beth yw cyfanswm yr electronau mae angen i chi eu lluniadu.
- Rhaid i **electronau** fod yn y **lefel egni** isaf sydd ar gael yn gyntaf. Dyma'r plisgyn sydd agosaf at y **niwclews**.
- Uchafswm yr electronau sy'n gallu llenwi pob **plisgyn** yw:
 - **dau yn y plisgyn cyntaf,**
 - **wyth yn yr ail blisgyn,**
 - **wyth yn y trydydd plisgyn.**
- Mae gan **botasiwm** a **chalsiwm** electronau pellach sy'n mynd yn y **pedwerydd plisgyn**.


Tasg

Gofynnwyd i chi asesu gwaith cartref cyd-ddisgybl.

Defnyddiwch y camau hyn i luniadu diagramau ffurfwedd electronau ar gyfer yr 20 elfen gyntaf yn y tabl cyfnodol. Ar gyfer pob diagram ffurfwedd electronau mae eich cyd-ddisgyblion wedi'i luniadu, mae angen i chi luniadu'r diagram wedi'i gywiro ac ysgrifennu esboniad byr o'r hyn maent wedi'i wneud o'i le.

Cyfeiriwch at y pwyntiau bwled uchod i'ch helpu i wirio manwl gywirdeb y diagramau ac i roi cyngor ar wella eu gwaith.

Diagram ffurfwedd electronau	Asesiad gan gyd-ddysgwyr (lluniadu'r diagram cywir ac egluro'n gryno)
	
	
	

	
Diagram ffurfwedd electronau	Asesiad gan gyd-ddisgyblion (lluniadwch ddiagram cywir ac eglurwch yn gryno)
